**Julie James AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Hydref 2018

Annwyl Mick,

**Newidiadau i Reolau Sefydlog mewn perthynas â Gorchmynion adran 116C yn y Cyfrin Gyngor**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 8 Hydref. Fel y dywedais yn y ddadl ar yr adolygiadau i'r Rheolau Sefydlog ar 10 Hydref, mae gorchmynion adran 116C yn y Cyfrin Gyngor yn is-ddeddfwriaeth sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol. Fel y nodwyd yn ystod y ddadl gan Dai Lloyd AC, ar ran eich pwyllgor chithau, Rheol Sefydlog 27 yw'r Rheol Sefydlog berthnasol ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth. Mae eisoes yn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o'r weithdrefn sydd ei hangen i graffu ar Orchmynion adran 116C. Rydym yn cytuno bod angen i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithredu, drwy ei weithdrefnau, fod yn hygyrch i'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn ystyried mai cynnwys y weithdrefn yn Rheol Sefydlog 27 yw'r dull mwyaf priodol, gan ei fod yn cydgrynhoi'r Rheolau Sefydlog ar gyfer is-ddeddfwriaeth ac yn osgoi dyblygu gweithdrefnau mewn gwahanol Reolau Sefydlog, ac mae o gymorth felly o ran hygyrchedd a thryloywder. Yr wythnos ddiwethaf, cytunodd y Cynulliad ar yr un dull ar gyfer Rheol Sefydlog 27 mewn perthynas ag offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r UE.

Sefydlwyd Rheol Sefydlog 27 i ymdrin â Gorchmynion adran 109, fel y bodolent o dan y setliad datganoli cyn-2011 – hen Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, neu LCO, y trydydd Cynulliad. Er bod Gorchmynion adran 116C yn ymwneud â datganoli pwerau gwneud trethi newydd i'r Cynulliad, maen nhw'n wahanol i LCO; dim ond ar ôl cynnal cyfnod o negodi ac ymgynghori, ac ar sail consensws rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, y'u cyflwynir. Nid yw'r broses dau gam a ddefnyddir yn achos LCO, lle creffir ar Orchmynion arfaethedig a drafft, yn briodol yn y sefyllfa hon.

Mae'r Llywodraeth wedi gwneud nifer o ymrwymiadau ynghylch yr wybodaeth a ddarperir i'r Cynulliad yn ystod y cyfnod negodi cyn i adran 116C gael ei chyflwyno. Nodir y rhain yn adroddiad y Pwyllgor Busnes, ac maent yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir ichi ar ran y Pwyllgor. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r sylwadau yn eich llythyr ac yn ystod y ddadl, byddai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn hapus i ystyried opsiynau eraill i sicrhau bod holl

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

aelodau'r pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, pe byddai hynny o ddefnydd iddynt. Bydd hyn wrth reswm yn cael ei wneud mewn cyd-destun o gyfrinachedd ac yn unol â chysylltiadau rhynglywodraethol.

Mae trafodaethau yn parhau rhwng ein priod swyddogion am drefniadau yn y dyfodol ar gyfer hysbysu pwyllgorau'r Cynulliad am y modd y mae'r peirianwaith cysylltiadau rhynglywodraethol yn gweithredu. Mae'r Llywodraeth yn agored i sefydlu trefniadau priodol. Gallwn gynnwys Pwyllgor Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd yn y broses honno.

Yn olaf, dywedodd Dai Lloyd AC yn ei sylwadau i gloi fod y broses a sefydlwyd gan adran newydd 116C o'r Ddeddf Llywodraeth Cymru yn newydd. Gallaf gadarnhau yr ymrwymiad a wnaed gennyf yn y ddadl y bydd y Llywodraeth yn adolygu'r broses o ddatganoli treth newydd i Gymru gan ystyried profiad.

Yn gywir,



**Julie James AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip